PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 10 Medi 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
D.M. Cundy (yn lle P.M. Edwards), S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a J.E. Williams;

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.45 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Edwards.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

E/39892	**Cais i ddatblygu Ffordd Gyswllt rhwng Ffordd Gyswllt Economaidd arfaethedig Cross Hands â'r B4556 Heol Norton, gwaith draenio a thirlunio cysylltiedig, ffordd gyswllt arfaethedig rhwng Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands, Heol Norton, Pen-y-groes, Llanelli, SA14 7RS** Cafwyd sylw ar ran gwrthwynebydd i'r cais ac roedd y prif feysydd a berai bryder fel a ganlyn: • Methiant i roi gwybod yn briodol i bawb sydd â buddiant yn nhir y cais cynllunio; • Mae'r cynnig yn gwrthdaro â'r cais cynllunio cyfagos am 70 o unedau preswyl; • Dim manylion am drin y ffiniau â thir preifat cyfagos; • Dim manylion am effaith debygol sŵn o'r ffordd arfaethedig, na mesurau lliniaru arfaethedig i fynd i'r afael ag effeithiau o'r fath. Ymatebodd asiant yr ymgeisydd a'r Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y De] i'r materion a godwyd.

4. COFNODION

4.1. 13EG AWST 2020

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Awst 2020 yn gofnod cywir.

4.2. 25AIN AWST 2020

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Awst 2020 yn gofnod cywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]